



Academi Gwelliant Cymru Canllaw Pecyn Cymorth



Y 5 Pam

Offeryn ar gyfer dadansoddi gwraidd y
broblem

Beth yw'r 5 Pam?

Offeryn gwella syml yw'r 5 Pam a all helpu i ddod o hyd i ffynhonnell y broblem neu achos sylfaenol y broblem, heb ddadansoddiad ystadegol. Mae'n ddull iteraidd sy'n gofyn y cwestiwn 'pam?' dro ar ôl tro, (yn ddelfrydol, bum gwaith, ond nid yw'n gyfyngedig i'r nifer hwn), gan ei gwneud hi'n bosibl treiddio haenau problem i ddod o hyd i achos. Mae'n ddefnyddiol iawn gan ei fod yn offeryn sy'n canolbwyntio ar bobl ac sy'n helpu sefydliadau i ddeall gwraidd y broblem.

Rhesymeg

Weithiau rydym yn dod i gasgliadau yn rhy gyflym a all fod yn seiliedig ar ragdybiaethau anghywir. Y peth allweddol yw osgoi'r rhagdybiaethau hyn a dal ati i dreiddio i'r gwir achos sylfaenol. Mae'n rhoi cyfle i glywed gan dimau, i wneud penderfyniadau effeithiol.

Cefndir

Mae'r dull 5 Pam yn rhan o system gynhyrchu Toyota. Cafodd ei ddatblygu gan Sakichi Toyoda, dyfeisiwr a diwydiannwr o Japan. Mae'r dechneg wedi dod – ac yn parhau i fod – yn rhan annatod o athroniaeth Lean (Planview, 2019) ac mae'n rhan o'i methodolegau ffatri o hyd.

Pryd i'w ddefnyddio?

Yn hytrach na rhai cymhleth, mae'n canolbwyntio ar broblemau haws neu gymedrol sy'n ymwneud â rhyngweithio dynol.

Agwedd bwysig o'r 5 Pam yw ei fod yn mabwysiadu agwedd gynhwysol o fewn y tîm. Dylai aelodau'r tîm fod yn gyfarwydd â manylion y broblem a'r broses yr ydych yn ceisio ei datrys.

Cofiwch, i barhau i ofyn cwestiynau hyd at bum gwaith er mwyn dod i gasgliad tîm. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn nodi achos gwraidd y broblem trwy ofyn cwestiynau llai na phum gwaith.

Sut i ddefnyddio'r dull 5 Pam

1. Gwnewch nodyn o'r broblem benodol rydych chi'n bwriadu ei datrys. Gall hyn eich helpu i ddeall a ffurfioli'r broblem yn glir a'i disgrifio'n gywir. Dewch â'ch tîm ynghyd a dewiswch hwylusydd.
2. Meddyliwch am resymau pam mae'r broblem yn digwydd. Gwnewch nodyn o'r atebion ar bob cam o'r cwestiwn 'Pam'.
3. Os nad yw'r atebion hyn yn dod o hyd i ffynhonnell y broblem, parhewch i ofyn 'Pam?' eto a gwnewch nodyn o'r atebion hyn.
4. Ailadroddwch y broses nes i chi gytuno fel tîm eich bod wedi nodi achos sylfaenol y broblem. Gall hyn gymryd llai neu fwy na 5 'pam'.

Mae'n bwysig dewis hwylusydd i alluogi'r tîm i barhau i ganolbwyntio ar y broblem. Mae'n bosibl y bydd swm sylweddol o wybodaeth yn cael ei chynhyrchu, ac efallai y bydd angen dadansoddiad er mwyn dod o hyd i'r achos sylfaenol.

Enghraifft

1. Bu oedi sylweddol o ran diagnosisio canser croen y claf. - **Pam?**
2. Ni welodd y llawfeddyg adroddiad y biopsi trwy doriad. - **Pam?**
3. Cafodd yr adroddiad ei ffeilio yn nodiadau'r claf a doedd y llawfeddyg ddim wedi ei weld. - **Pam?**
4. Oherwydd system newydd, cafodd adroddiad ei roi yn adran 4 o'r nodiadau ac nid oedd y llawfeddyg wedi chwilio amdano yno. - **Pam?**
5. Nid oedd y llawfeddygon wedi cael gwybod am y newid hwn. - **Pam?**

Yr achos sylfaenol: Nid ymgynghorwyd â'r meddyg ynghylch y newid i'r broses.

Datrysiad: Mae'r system bellach wedi'i newid mewn ymgynghoriad â'r meddyg. Mae copi o'r holl adroddiadau biopsi bellach yn cael ei anfon yn uniongyrchol at yr ymgynghorydd sy'n gyfrifol am y claf ac ni chaiff unrhyw adroddiadau eu ffeilio oni bai eu bod wedi'u llofnodi gan feddyg.

Beth nesaf?

Unwaith y bydd achos sylfaenol y broblem wedi'i nodi, mae'n bwysig rhoi gwybod i'r holl randdeiliaid perthnasol neu'r rhai y mae'r broblem yn effeithio arnynt (Improvement NHS, 2019). Gallai hyn fod eich cydweithwyr neu adrannau eraill. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn canolbwyntio ar weithio ar y maes problemus, nid trin ei symptomau.

Awgrymiadau defnyddiol

Gall ofyn '**Pam?**' bum gwaith ein harwain at un llwybr achosol. Fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai anaml dim ond un achos sydd i broblemau o fewn systemau cymhleth. Gall gweithio gyda thîm gyfyngu ar hyn.

Efallai y bydd angen i chi ystyried offer gwella eraill i ddatrys problemau mwy cymhleth megis diagramau asgwrn pysgodyn. Mae'n bwysig bod cyfres o offer Gwella

ar gael i chi. Bydd hyn yn sicrhau bod yr offeryn cywir yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r broblem gywir.

Noder y gall fod yn ddefnyddiol ysgrifennu ac ailysgrifennu datganiad problem 18 gair i gyfleu'r broblem yn gryno.

Mae [Atodiad 1](#) yn darparu templed defnyddiol efallai yr hoffech ei ddefnyddio. Gweler tudalen 6

Adnoddau ychwanegol

Os hoffech chi ddysgu rhagor am wneud gwelliannau i'ch gweithle, edrychwch ar ein gwefan i weld yr hyn rydyn ni'n ei gynnig i chi <https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/gwelliant-cymru/academi-gwelliant-cymru/> neu anfonwch e-bost atom: PHW_ImprovementCymru@wales.nhs.uk i gael rhagor o wybodaeth am y cyrsiau gwella rydym yn eu cynnig.

Darllen pellach

Ihi.org. (2019). *IHI Home Page*. [Ar-lein] Ar gael yn: <http://www.ihl.org/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Improvement.nhs.uk. (2019). *Root cause analysis - using five whys | NHS Improvement*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://improvement.nhs.uk/resources/root-cause-analysis-using-five-whys/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Mind Tools (2021) *5 Whys getting to the root problem quickly [Ar-lein] Ar gael yn:* https://www.mindtools.com/pages/article/newTMC_5W.htm [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Ohno, T. (2014). *Toyota production system*. London: CRC Press.

Open. (2019). *What is a 5 Whys? Step-by-Step Guide to Running a 5 Whys Exercise*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://open.buffer.com/5-whys-process/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Planview. (2019). *The 5 Whys of Lean | Planview LeanKit*. [Ar-lein] Ar gael yn: <https://www.planview.com/resources/articles/5-whys-of-lean/> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Spica (2021) *The 5 Whys technique – dig deep to find the root cause of any problem*. [Ar-lein]. Ar gael yn: <https://www.spica.com/blog/5-whys> [Cyrchwyd 1 Medi 2022].

Atodiad 1: **Templed '5 Pam'**

Digwyddiad:

Beth ddigwyddodd? *Diffiniwch y broblem fel digwyddiad:*

Patrwm:

Beth sydd wedi bod yn digwydd? *Diffiniwch y broblem fel 'patrwm' trwy ddewis ffactor perfformio gwael:*

Strwythur:

Pam mae wedi bod yn digwydd? *Beth yw'r strwythurau diriaethol ac anniriaethol sy'n pennu'r canlyniadau sy'n cael eu harsylwi?*

1. Pam fod hyn?



2. Pam fod hyn?



3. Pam fod hyn?



4. Pam fod hyn?



5. Pam fod hyn?

Gweithred (Datrysiad):

Beth yw'r goblygiadau ar gyfer gweithredu? *Beth allwch chi ei wneud i newid y canlyniadau?*